# Cyngor Cymuned Llandderfel

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Gorffennaf 1af 2025 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (cadeirydd), Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Rita Jones, Iolo V. Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Bethan Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones ac Eifion Davies.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-</u>
i) Eglwys St. Mor, Llanfor – cafwyd cadarnhad gan y perchnogion fod yr eglwys ar werth a fod yr hawliau tramwy wedi cael eu cofnodi'n gywir yn y dogfennau gwerthiant.
ii) Canghennau'r coed yn tyfu drosodd i'r ffordd rhwng y neuadd a Ty'n Ffridd, Sarnau– roedd Arolygwr Priffyrdd Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y byddant yn torri'r coed ym mis Medi.
iii) Car wedi'i adael yn y gilfan ger Braich Ddu – roedd yr heddlu wedi gwneud trefniadau i'w symud.
iv) Roedd trefniadau mewn lle i ail osod y cerrig a oedd wedi disgyn o'r wal o flaen y lloches bws yng Nghefnddwysarn a'r wal rhwng Cynlas a Thŷ Nant.
v) Roedd y cais am balmentydd ychwanegol ar yr A494 i gysylltu'r llwybrau troed a'r pentrefi yn Sarnau a Cefnddwysarn wedi cael ei anfon ymlaen i'r adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru i gael ei ystyried.
vi) Coed yn dod drosodd i'r ffordd ger y goleuadau traffig dros dro ym Methel – roedd Adain Amgylchedd yr Adran Cefnffyrdd am gael golwg ar y safle a chynghori ynglŷn â'u torri.

<u>b) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned.</u>
Cytunwyd symud ymlaen a'r cais ac i dderbyn prisiau gan C T Roberts Plant Hire, Brian Evans a'i fab a Tom Edwards am wneud y gwaith ym mynwent Frongoch**.**

<u>c) Ciosg ffôn pentref Llandderfel.</u>
Yn dilyn ymgynghoriad a'r gymuned cytunwyd i fabwysiadu'r ciosg a'i droi'n llyfrgell gymunedol.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Cyfarfod Fforwm Adfywio Y Bala a Phenllyn
ii) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd.

<u>b) Amrywiol.</u>
i) Cyngor ar Bopeth – uno Conwy a Gwynedd.
ii) Un Llais Cymru - Nodau Datblygu Ymarfer Diweddaredig.
iii) Camu i'r Copa – Triathlon Y Bala 2025.
iv) Cylch yr Iaith – Gwarchod enwau lleoedd Cymraeg.

<u>v) Ceisiadau Cynllunio</u>
Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau.

<u>vi) Materion Ariannol</u>
<u>a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)</u>
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: ……………………………………..

b) HSBC.
Cafwyd ein cynghori na fydd y banc yn codi'r ffi misol o Gorffennaf ymlaen.

c) Taliadau.
Cytunwyd i dalu –
i) Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh)
ii) TWE
iii) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd)
iv) McAfee (1/2 y gost gyda Chyngor Llanycil - ad-daliad i'r clerc)
v) BT (ciosg ffôn Llandderfel)

**vii) Materion lleol.**
a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwyn canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Angen torri'r glaswellt o gwmpas y fainc sydd ar y llwybr troed rhwng Bala a Llanfor.

b) Cwyn fod cangen un o goed mynwent Frongoch yn dod drosodd i ardd un o'r cymdogion ac angen ei dorri.
Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a'r contractwr lleol i gael dyfynbris ac os oedd y pris o dan i gario mlaen gyda'r gwaith.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 2il am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..